tolion; y dydd cyntaf wedi y Sabboth oedd y Pentecost. 'Ac wedi dyfod dydd y Pentecost, yr oeddynt oll yn gytun, yn yr un lle.' Act. ii. 1, 2. Lef. xxiii. 16. Wele, etto, brawf eu bod yn parâu i ymgynnull ar y dydd cyntaf o'r wythnos.—'Ac yn ddisymwth y daeth sŵn o'r nef, megys gwynt nerthol yn rhuthraw, &c. A hwy a lanwyd oll o'r Ysbryd Glân.'——Cyssegrodd yr Ysbryd Glân, y dydd cyntaf, drwy dywalltiad rhyfedd iawn ar y bobl. Dwysbigwyd tair mil y bore, fel blaen-ffrwyth o lwyddiant yr efengyl, ar y dydd cyntaf o'r wythnos. Ar y dydd cyntaf o'r wythnos yr oedd y dysgyblion yn dyfod y'nghyd i dori bara. Act. xx. 7. Gan mai dyma y dydd oeddynt yn ei ddewis, i weinyddu yr odinâad sanctaidd hon, diammeu, mai y dydd hwn oeddynt yn ei gadw yn Sabboth. Ar y dydd cyntaf y byddent yn casglu i'r tlodion, 1 Cor. xvi. 2. gan hyny, y mae yn amlwg, mai ar y dydd hwn y byddai eu cynnulleidfäoedd ynghyd.

Diddadl, mai y dydd cyntaf o'r wythnos y mae Ioan yn ei alw, 'Dydd yr Arglwydd.'—'Yr oeddwn yn yr Ysbryd ar ddydd yr Arglwydd.' Dad. i. 10 h. y. Yr oeddwn wedi fy llenwi âg Ysbryd Duw, yn ei waith.—Mae yn cael ei alw dydd yr Arglwydd, i ddangos, fod hawl neillduol gan yr Arglwydd Grist ynddo; megys y mae yr ordinâad hono, yn cael ei galw swper yr Arglwydd; neu fel yr oedd y seithfed dydd yn cael ei alw, Sabboth yr Arglwydd.—Y mae yn dra sicr, i Grist hysbysu i ei ddysgyblion, mai y dydd cyntaf o'r wythnos oedd i fod yn Sabboth iddynt. Dywedodd Crist i ei ddysgyblion, ynghorph y deugain niwrnod y bu efe gyda hwynt, wedi ei adgyfodi o'r bedd, 'y pethau a berthynent i deyrnas Duw.' Act. i. 3. Diammeu iddo hysbysu iddynt

o'i gadw; fel pe buasai Duw yn dywedyd, *cofia* amser pènodol fy addoliad, fy nydd sanctaidd; os anghofi di y dydd hwn, ti a anghofi fy addoliad; ac os anghofi fy addoliad ti a'm hanghofi innau. Felly, mae dibrisdod o'r Sabboth yn arwain i atheistiaeth. Mae *cofia*, hefyd, yn dangos y dylem ei gofio cyn iddo ddyfod, fel y gallom barotôi ar ei fedr; rhoddi pethau y chwe diwrnod mewn trefn, fel na byddo achos meddwl am danynt pan ddelo y Sabboth. Bydd parotôi mawr, pan fyddis yn dysgwyl rhyw wr mawr i ymweled â ni, a glanâu hynod, a rhoddi pethau mewn trefn, cyn iddo ddyfod:—Gwr mawr yw y Sabboth—sanct yr Arglwydd ydyw—cènad y mae Duw yn ei anfon yn wythnosol atom i edrych pa barch a ddangosem iddo; ac mae Duw yn cyfrif ein hymddygiad at y Sabboth yn ymddygiad ato ef. Dywed Duw yn debyg i'r gair hwnw, 'Yn gymmaint nas gwnaethoch i'r rhai bychain hyn, nis gwnaethoch i minnau.' Gall ddywedyd am ei Sabboth, wrth ei halogwyr, Yn gymmaint nas parchasoch fy Sabboth, nis parchasoch finnau.

Sylwiwn—2. Fod tori y Sabboth yn bechod mawr yn erbyn Duw; ac, hefyd, yn tynu barnedigaethau trymion ar ddynion.——1. Dangosodd Duw ei anfoddlonrwydd yn fawr i'r pechod hwn, drwy orchymyn rhoddi i farwolaeth y sawl a'i halogai drwy unrhyw waith; ïe, pe buasai waith y tabernacl. Exod. xxxi. 13, 17.——Llabyddiwyd y dyn a gafwyd yn casglu cynnud ar y Sabboth: ïe, llabyddiwyd ef drwy orchymyn pendant Duw. (gwel Num. xv. 32, 35.) Nid oedd dim dïaledd trymach yn cael ei roi am ladd a godinebu nag oedd am halogi y Sabboth. Er fod dull y gosp yn perthyn i'r ddeddf wladol oedd yn Israel, ac nid yw, mae yn debyg, i'w harfer felly dan yr efengyl; etto mae drwg y pechod, ac anfoddlonrwydd Duw tu ag ato,

